


Let's keep on
Supporting People 
Gadewch i ni barhau i
Gefnogi Pobl

Canllaw i aelodau





Let's keep on
Supporting People

Gadewch i ni barhau i
Gefnogi Pobl



Gadewch i ni barhau i Gefnogi Pobl

Yng Nghymru mae'r rhaglen Cefnogi Pobl, a gyflwynwyd ar draws y Deyrnas Unedig yn 2003, yn galluogi tua 56,000 o bobl a allai fod yn agored i niwed ac ar yr ymylon i fyw'n annibynnol a gydag urddas yn eu cymunedau.

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn ariannu gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai y gall landlord (megis cymdeithas tai) neu ddarparwydd arall megis mudiad gwirfoddol eu darparu. Mae cymorth yn golygu cyngor a help i'w gwneud yn haws i bobl agored i niwed gynnal eu hannibyniaeth yn eu cartref eu hunain neu ddatblygu'r sgiliau i wneud hynny.

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn wasanaeth ataliol a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r rhai sy'n cael budd ohoni, gan gynyddu eu gallu i ymdopi gyda'r annisgwyl, pwysau ac ansicrwydd yn eu bywyd a gostwng y galw ar y systemau iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol.

Ond mae Cefnogi Pobl yn dioddef o wendidau arferol rhaglenni ataliol, yn cynnwys: diffyg data cynhwysfawr hollol bendant; diffyg ewyllys wleidyddol i fuddsoddi mewn gwaith ataliol, os nad yw'r buddion yn dod i'r amlwg am flynyddoedd; a diffyg dull cydlynol i ddangos effaith. Mae hefyd yn dioddef o rai gwendidau sy'n neilltuol i Cefnogi Pobl: diffyg cyffredinol o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, gwrthwynebiad y cyhoedd i rai o'r rheiny a gefnogir gan Cefnogi Pobl; sylfaen cleientiaid eang tu hwnt, sy'n ei gwneud yn anodd sicrhau dull gweithredu cyson; a diffyg cyfalaf gwleidyddol i'w ennill wrth drin mater nad yw yn flaenoriaeth gan y cyhoedd pan fyddant yn pleidleisio.

Yn fyr, mae gan Cefnogi Pobl rai problemau strwythurol a chanfyddiad clir sydd angen eu hwynebu. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn rhoi sylw i effaith gadarnhaol y rhaglen yma i ddiogelu'r gyllideb.

Gobeithiwn y bydd y pecyn yma'n ddefnyddiol i chi ac edrychwn ymlaen at weld sut y byddwch yn cymryd rhan yn yr ymgyrch.

Auriol Miller
Cyfarwyddydd
Cymorth Cymru



Stuart Ropke
Prif Weithredydd Grŵp
Cartrefi Cymunedol Cymru



**Gadewch i ni barhau i
Gefnogi Pobl**



 [#supportingpeoplewales](#)



Let's keep on
Supporting People

Gadewch i ni barhau i
Gefnogi Pobl



Am beth mae'r ymgyrch?

Sefydlwyd ymgyrch 'Gadewch i ni barhau i Gefnogi Pobl' i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen Cefnogi Pobl, y bobl a gaiff fudd ohoni, natur ataliol y rhaglen a sut y gwerir y cyllid. Nod yr ymgyrch yw sicrhau buddsoddiad parhaus yng ngrant y rhaglen Cefnogi Pobl a sicrhau fod pobl ar yr ymylon ac mewn risg yn parhau i gael eu hamddiffyn.

Caiff yr ymgyrch 'Gadewch i ni barhau i Gefnogi Pobl' yng Nghymru ei rhedeg gan Cartrefi Cymunedol Cymru, corff aelodaeth cymdeithasau tai yng Nghymru, a Cymorth Cymru, y corff ymbarél ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ar yr ymylon ac mewn risg yng Nghymru.

Eich angen chi!

Rydym angen i chi hyrwyddo Cefnogi Pobl a chredwn y gallwch gael mwy o effaith gyda gwleidyddion lleol. Bydd CHC a Cymorth Cymru yn cyhoeddi papur gwybodaeth ar y cyd i holl Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, yn rhoi sylw i waith y rhaglen Cefnogi Pobl ac yn ategu pwysigrwydd y gyllideb ataliol yma.

Rydym angen eich help i sicrhau y caiff y papur gwybodaeth ei ddeall yn llawn. Rydym angen i chi gysylltu â'ch AC lleol i helpu dweud stori sut mae cyllid Cefnogi Pobl yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu hetholaeth.

Rydym eisiau i holl aelodau CHC a Cymorth gymryd rhan yn yr ymgyrch a, gyda'ch help, byddwn yn cyfathrebu effaith gadarnhaol y rhaglen Cefnogi Pobl i bob Aelod Cynulliad dros y misoedd nesaf.

Sut y gallwch gymryd rhan?



Dyma rai syniadau:

Llygad y Ffynnon:

Gwahodd eich AC lleol neu Gynghorydd i ymweld â phrosiectau a gaiff eu hariannu gan Cefnogi Pobl a siarad gydag unigolyn neu grŵp sydd wedi manteisio o brosiect a gaiff ei ariannu gan Cefnogi Pobl.



Gwneud y pwynt:

Anfon datganiad i'r wasg i'r cyfryngau lleol, yn dweud stori rhywun a fanteisiodd o brosiect a ariannwyd gan Cefnogi Pobl. Neu lle gallech ofyn i rywun yr ydych wedi'i gefnogi i ysgrifennu llythyr at y Golygydd yn esbonio eu hamgylchiadau personol a sut y gwnaeth cyllid Cefnogi Pobl eu helpu.

Gallech gynhyrchu papur gwybodaeth lleol gyda sefydliadau partner (yn defnyddio negeseuon allweddol o'r ymgyrch) i ddangos faint o bobl a gaiff eu cefnogi yn etholaeth eich AC a'r ystod eang o wasanaethau y mae'r grant yn talu amdanynt yn lleol.

Bod yn gymdeithasol:

Mae cynifer o sianeli cyfryngau cymdeithasol i helpu lledaenu'r gair. Os ydych ar Twitter, defnyddiwch hashnod #supportingpeoplewales (a dilyn @CHCymru @cymorthcymru).

Beth am wneud ffilm fer neu Vine am berson/grŵp a fanteisiodd o brosiect a ariannwyd gan Cefnogi Pobl a'i rhannu drwy'r cyfryngau cymdeithasol?

Gadewch i ni wybod sut ydych yn cefnogi'r ymgyrch ac yn ymgysylltu gyda gwleidyddion lleol.

Gallwch wneud hynny drwy anfon e-bost at Edwina-ohart@chcymru.org.uk neu jodicox@cymorthcymru.org.uk







Yn 2014/15,
roedd y gyllideb
Cefnogi Pobl yn
£134.4m.

Wyddech chi:

- Yn 2014/15, roedd y gyllideb Cefnogi Pobl yn £134.4m.
- Yn 2014/15, cafodd 56,000 o bobl eu cefnogi gan y rhaglen Cefnogi Pobl - £2,392.85c y person ar gyfartaledd.
- Cafodd y gyllideb Cefnogi Pobl ei thorri gan £10m i £124.4m yn 2015/16, 7.6% o gyfanswm cyllideb Cefnogi Pobl.
- Mae Cefnogi Pobl yn wasanaeth ataliol - atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf neu roi help cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn gostwng y galw ar wasanaethau eraill megis gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.
- Galwodd y Pwyllgor Cyllid ar y Gweinidog Cyllid i edrych eto ar y penderfyniad i ostwng cyllideb Cefnogi Pobl.
- Yn ardal y Fro a Chaerdydd, mae £10m yn gyfartal â chyllid blynyddol yr holl wasanaethau ar gyfer dynion a menywod sydd mewn risg o gam-drin domestig, pobl ifanc gydag anghenion cymorth, pobl gydag anabledau dysgu, pobl gyda phroblemau iechyd meddwl, pobl gyda phroblemau alcohol, pobl gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau, cyn-droseddwr a theuluoedd gydag anghenion cymorth.
- Mae cyflenwi gwasanaethau GIG yn costio tua £113m yr wythnos yng Nghymru. Byddai £10m felly'n talu am gostau rhedeg y GIG am tua 0.5 diwrnod.
- Yng Nghymoedd De Cymru mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae cyllideb Cefnogi Pobl Rhondda Cynon Taf yn cael ei thorri gan 5.6% a bydd cyllideb Merthyr yn cael ei thorri gan 5.45%.

Yn 2014/15,
cafodd 56,000
o bobl eu cefnogi gan
y rhaglen Cefnogi Pobl

Cafodd y gyllideb Cefnogi
Pobl ei thorri gan
£10m
i **£124.4m**
yn 2015/16

Mae cyflenwi
gwasanaethau GIG yn
costio tua **£113m**
yr wythnos yng
Nghymru.

¹ <http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/130909vale-and-cardiff-spend-plan-2013-en.pdf>

² <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-30282247>







Rhestr wirio astudiaethau achos:

Gall astudiaethau achos fod yn werthfawr iawn wrth ddangos effaith eich prosiectau a gwasanaethau Cefnogi Pobl. Caiff astudiaethau achos gyda stori glir ac ongl ddynol eu gwerthfawrogi gan newyddiadurwyr ac maent yn fwy tebygol o arwain at sylw yn y cyfryngau.



Beth sy'n gwneud astudiaeth achos da?

Mae llawer o opsiynau ar gyfer astudiaeth achos da, ond bydd gan y rhai mwyaf effeithiol elfen diddordeb dynol cref.



Pa wybodaeth sydd ei hangen?

- ✓ Gwybodaeth am y gwasanaeth a ddarparwch - beth sy'n ei wneud yn wahanol i brosiectau/gwasanaethau eraill?
- ✓ Y gwahaniaeth a wnaiff i fywydau pobl leol.
- ✓ Sut y cafodd y gymuned ehangach fudd fel canlyniad.
- ✓ Unrhyw ddata allweddol neu ystadegau sy'n profi fod eich prosiect yn cael effaith.
- ✓ Lluniau safon uchel.
- ✓ Manylion pwy i gysylltu â nhw i gael cyfweiliadau neu ymholiadau eraill.



Os yw'r astudiaeth achos yn cynnwys rhywun sydd wedi manteisio o brosiect a ariannir gan Cefnogi Pobl, byddwch hefyd angen:

- ✓ Eu henw, oedran ac ym mha ardal maent yn byw. Er y gellir defnyddio astudiaethau achos dienw mewn rhai amgylchiadau, bydd y cyfryngau fel arfer yn gofyn iddynt beidio bod yn ddienw.
- ✓ Cadarnhad os ydynt yn hapus i'r wasg gyhoeddi'r astudiaeth achos, cael tynnu eu llun i'w gyhoeddi, cael eu cyfweled gan y wasg (teledu neu radio) a bod yn rhan o ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ehangach. Y cyngor yw gofyn i gyfranogwyr lofnodi ffurflen caniatâd.



Beth allaf ei wneud

Defnyddiwch eich astudiaethau achos i gefnogi unrhyw straeon cyfryngau lleol yr ydych yn eu rhedeg. Gallwch hefyd rannu eich astudiaethau achos drwy'r cyfryngau cymdeithasol - os ydych yn defnyddio Twitter, defnyddiwch #cefnogipoblcymru os gwelwch yn dda. Bydd hyn yn ein galluogi i roi'r gair ar led am eich ymgyfraniad/prosiect a hefyd gadw golwg ar sut mae'r ymgyrch yn mynd ar draws Cymru.

Mae CHC a Cymorth hefyd angen astudiaethau achos i'w defnyddio gan y cyfryngau. Os ydych yn hapus i rannu astudiaeth achos, anfonwch hi at sarah-harris@chcymru.org.uk neu jodicox@cymorthcymru.org.uk gyda chynifer o'r manylion uchod ag sydd modd os gwelwch yn dda.

Mae rhai enghreifftiau o astudiaethau achos yng nghefn y llyfryn yma.

Let's keep on
Supporting People

Gadewch i ni barhau i
Gefnogi Pobl



Cyngor da ar gyfer cysylltu gyda gwleidyddion

Ni fu erioed fwy o angen i adeiladu perthynas gref gyda chynrychiolwyr etholedig lleol a gyda dau etholiad yn y 15 mis nesaf, mae nawr yn amser da i gael eu sylw!

Er ein bod ni i gyd yn gwybod am waith gwych y rhaglen Cefnogi Pobl, efallai na fydd Aelodau Cynulliad lleol yn gwybod amdani. Mae'r ymgyrch 'Gadewch i ni barhau i Gefnogi Pobl' yn gyfle euraid i roi golwg o lygad y ffynnon i wleidyddion lleol ar effaith gadarnhaol y rhaglen Cefnogi Pobl.

Yn ogystal â rhoi llais 'lleol' yn y Senedd, mae llawer o Aelodau Cynulliad yn aelodau o bwyllgorau (megis y Pwyllgor Cyllid, Grŵp Tai Trawsbleidiol a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol) sy'n gwneud penderfyniadau allweddol fydd yn effeithio ar ddyfodol gwasanaethau yng Nghymru.

Mae'r dilynol yn ychydig o awgrymiadau syml i'w cadw mewn cof pan fyddwch yn cysylltu â gwleidyddion lleol:

Eu trin fel unigolion:

Ewch ati i ganfod beth yw eu diddordebau gwleidyddol a sut y gallwch eu helpu i'w hyrwyddo.

- Oes ganddyn nhw ddiddordeb mewn maes neilltuol sy'n gysylltiedig gyda'r rhaglen Cefnogi Pobl?
- Oes sylwadau wedi bod yn y cyfryngau ganddynt yn flaenorol am fater yn gysylltiedig â Cefnogi Pobl?
- dyn nhw wedi gofyn cwestiwn neu siarad mewn sesiwn lawn yn y Cynulliad am bwnc perthnasol?

Bydd gwneud eich gwaith cartref yn helpu gydag ymgysylltu lleol.

Denu sylw:

Er ein bod yn cydweithio fel sector, rydych yn cystadlu gyda llawer o sefydliadau eraill i gael sylw. Fel sefydliad sy'n darparu gwasanaethau gwerthfawr yn etholaeth eich AC, mae gennych achos cryf i'w gyflwyno am pam y dylent fod â diddordeb yn yr hyn sydd gennych i'w ddweud.

Mae Aelodau Cynulliad a Chynghorwyr yn disgwyl i bobl eu lobio a gofyn iddynt weithredu, p'un ai yw hynny'n wneud araith neu fynegi cefnogaeth ar gyfer cynllun. Defnyddiwch y cyfle yma i gael llun ohonynt gyda bwrdd yr ymgyrch a sicrhau eu bod yn gwybod am yr hashnod os ydynt ar Trydar. Bydd y rhan fwyaf yn hapus i roi dyfyniad cefnogol i'r wasg leol.

Bod yn awdurdodol:

Byddwch yn ffynhonnell dda o wybodaeth a chyngor - mae Aelodau a Chynghorwyr yn gorfod ymwneud â llawer o bynciau, felly maent yn gwerthfawrogi cael rhywun y gallant ddibynnu arnynt am atebion awdurdodol i'w cwestiynau. Os ydych eisiau iddynt wneud rhywbeth, byddwch yn glir sut y gallant helpu. Yn yr un modd, os gofynnant i chi am eich help neu gyngor, byddwch yn barod i roi hynny.


Dyfalbarhau:

Mae Aelodau Cynulliad a Chynghorwyr yn bobl brysur ac efallai na allant dderbyn gwahoddiadau oherwydd bod eu dyddiadur yn llawn. Byddwch yn ddygn!

Gwahoddwch nhw i rywbeth arall neu roi cynnig ar rywbeth newydd. Gwnewch hi'n glir eich bod yn awyddus i weithio gyda nhw. Cofiwch fel arfer mai dim ond ar ddyddiau Llun a dyddiau Gwener y mae Aelodau Cynulliad yn eu hetholaethau. Byddant yn y Senedd yng Nghaerdydd am weddill yr amser.

Meithrin eu staff:

Mae staff Aelodau Cynulliad yn ddylanwadol iawn a gallant fod yn ddefnyddiol iawn os ydych ar delerau da gyda nhw. Maent yn tueddu i weithio mewn timau bach ac agos. Os credant y bydd o ddiddordeb i AC wneud rhywbeth, maent yn debygol o ddod â hynny i'w sylw.







Taff Housing Association
Cymdeithas Tai Taf



Enghreifftiau o astudiaethau achos

Prosiect Goleudy

Caiff Prosiect Goleudy ei reoli gan Gymdeithas Tai Taf ac mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda thîm Cefnogi Pobl Cyngor Dinas Casnewydd sy'n darparu cyllid ar gyfer cymorth fel y bo angen.

Dechreuodd Prosiect Goleudy weithio gyda Tim Rhyddhau Ysbyty Brenhinol Gwent yn 2010 i sefydlu gwasanaeth i helpu cleifion sydd â phroblemau gyda'u cartref sy'n achosi oedi mewn rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty. Gall y materion amrywio o fygythiad digartrefedd, budd-daliadau heb fod ar gael neu oherwydd yn syml nad yw eu cartref presennol yn addas neu mewn cyflwr da.

Mae un o weithwyr cymorth Prosiect Goleudy yn awr yn gweithio'n barhaol o fewn y Tim Rhyddhau o'r Ysbyty. Gweithiant yn agos gyda'r defnyddwyr gwasanaeth, staff meddygol, teulu a gwasanaethau gwirfoddol neu statudol allweddol eraill i ostwng 'blocio gwelyau'.

Cafodd Sonia Moreland help gan Weithiwr Cymorth Tenantiaid mewn Ysbyty Prosiect Goleudy pan fu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty ar ôl torri ei migwrn yn ogystal â bod ar y rhestr aros am ben-glin newydd.

Roedd yn methu dychwelyd i'w cartref oherwydd ei phroblemau gyda symud, a olygai y byddai'n dod yn ddiartref.

Cydlynodd ei Swyddog Cymorth gyda'i hadran tai i wneud yn siŵr fod ganddi flaenoriaeth feddygol a chafodd ei symud i frig y rhestr aros. Fel canlyniad, cynigiodd yr adran tai lety addas yn uniongyrchol i Sonia.

Dyweddodd Sonia "Mae hwn yn wasanaeth gwych a wnaeth wirioneddol fy helpu mewn sefyllfa anodd, ac mae fy nheulu hefyd yn ddiolchgar iawn. Maen nhw wedi helpu cymaint arnaf ac rwyf mor hapus gyda fy fflat newydd! Rwy'n awr yn teimlo'n fwy diogel yn fy nghartref newydd, yn ogystal â bod yn nes at fy mhlant. Mae hefyd wedi rhoi amser i mi orffwys a dod ataf fy hun ac wedi fy helpu i fyw'n fwy annibynnol!"

Cefnogi Lucy

Symudodd Lucy i'r Cefnogi Lucy o gartref ei mam-gu a'i thad-cu ar ôl i'w pherthynasr gyda'i phartner chwalu. Roedd ei phartner wedi bod yn ei cham-drin yn gorfforol ac emosiynol am dair blynedd. Roedd gan Lucy ddiagnosis o gyflyrau iechyd meddwl yn cynnwys iselder, pryder ac anhwylder personoliaeth emosiynol ansefydlog. Oherwydd hynny roedd wedi gorfod mynd i'r ysbyty yn gyson a galw ar y gwasanaethau argyfwng hyd at ddeg gwaith y mis ar ôl iddi geisio niweidio neu ladd ei hunan.

Ar ôl iddi symud i'r YMCA, dechreuodd Lucy gysylltu'n araf gyda staff cymorth. Dechreuodd gymryd rhan ym mhrosiect Design For Life YMCA a mynd i'r grŵp ymarfer a champfa'r menywod. Fe wnaeth y ddau weithgaredd gynyddu hunan-dyb Lucy a chael effaith gadarnhaol ar reoli ei iechyd meddwl. Bu gostyngiad mawr yn y nifer o weithiau y bu'n rhaid iddi fynd i ysbyty a digwyddiadau lle bu'n rhaid galw ambiwlans a bu gwelliant yn ei phresenoldeb mewn apwyntiadau gyda'r tîm iechyd meddwl cymunedol.

Cafodd Lucy hefyd ei hatgyfeirio at Cymorth i Fenywod a gallodd orffen eu Rhaglen Rhyddid yno a chael cefnogaeth arbenigol. Gyda chefnogaeth Cymorth i Fenywod a Chymdeithas Tai YMCA, gallodd aros i ffwrdd o'r partner oedd wedi ei cham-drin. Roedd hyn yn golygu nad oedd angen mwyach alw ar yr heddlu i'r cyfeiriad cartref ac nad oedd angen gwasanaethau GIG fel o'r blaen ar ôl digwyddiad cam-drin.

Derbyniodd Lucy gefnogaeth barhaus gan Mind ar gyfer ei phroblemau iechyd meddwl, gan ostwng ei dibyniaeth ar adnoddau'r GIG a maes o law symudodd i fyw yn eu llety â chymorth.

Bydd gwaith y gwasanaeth a ariannwyd gan Cefnogi Pobl wedi arbed swm sylweddol i'r GIG, yn arbennig y gwasanaethau argyfwng ac iechyd meddwl.

Let's keep on
Supporting People

Gadewch i ni barhau i
Gefnogi Pobl



I gael mwy o wybodaeth ar ymgyrch 'Gadewch i ni barhau i Gefnogi Pobl', cysylltwch â:


Jodi Cox

Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata,
Cymorth Cymru
jodicox@cymorthcymru.org.uk
029 2055 3687

Edwina O'Hart

Pennaeth Cyfathrebu,
Cartrefi Cymunedol Cymru
edwina-ohart@chcymru.org.uk
029 2067 4808

Ymuno yn y sgwrs

 Ymunwch yn y sgwrs a'n helpu i ledaenu'r gair am yr ymgyrch drwy ddefnyddio #supportingpeoplewales

 Dilynwch Cymorth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru i gael y newyddion diweddaraf o'r ymgyrch - @cymorthcymru @chcymru

